



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hyfforddiant sefydlu i lywodraethwyr yng Nghymru

Canllawiau i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu
ysgolion a gynhelir

www.cymru.gov.uk



Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 114/2013
Dyddiad cyhoeddi: Awst 2013

Hyfforddiant sefydlu i lywodraethwyr yng Nghymru

- Cynulleidfa** Cyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol; Llywodraethwyr Cymru ac unrhyw gorff arall sy'n darparu hyfforddiant i lywodraethwyr.
- Trosolwg** Mae cynnwys y canllawiau hyn yn ymwneud â darpariaethau yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013.
- Camau i'w cymryd** Rhaid i awdurdodau lleol ac unrhyw gorff arall sy'n darparu hyfforddiant i lywodraethwyr ystyried cynnwys y canllawiau hyn wrth lunio eu rhaglenni hyfforddiant sefydlu gorfodol.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6051
Ffacs: 029 2082 6109
e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau
- Dogfennau cysylltiedig** Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013

Cynnwys

1.	Trosolwg	1
	A. Rolau gwahanol ac ategol llywodraethwyr	2
	B. Rolau a chyfrifoldebau allweddol cyrff llywodraethu	3
	C. Sut i fod yn llywodraethwr effeithiol	4
	Ch. Ble i gael gafael ar ragor o wybodaeth, cymorth a hyfforddiant	6
2.	Gwybodaeth gefndirol a dolenni perthnasol	8

1. Trosolwg

1.1 Eir ati yn y ddogfen hon i nodi cwmpas a chynnwys hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer llywodraethwyr.

1.2 Bydd disgwyl i lywodraethwyr gael yr hyfforddiant ymsefydlu a amlinellir yn y ddogfen hon.

1.3 Bydd yr hyfforddiant yn helpu i sicrhau bod llywodraethwyr:

- i. yn meddu ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae eu hangen arnynt i ddechrau cyflawni'u rôl fel llywodraethwr yn effeithiol er mwyn cynorthwyo'u hysgol i godi safonau;
- ii. yn ymwybodol o faterion addysgol cenedlaethol a lleol a'r effaith y mae'r materion hynny'n eu cael ar gyrff llywodraethu;
- iii. yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd hyfforddiant a'r angen i feithrin eu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd hyfforddi eraill sydd ar gael iddynt.

1.4 Bydd yr hyfforddiant yn adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer llywodraethu ysgolion yng Nghymru a bydd yn diffinio'n glir yr hyn sydd i'w ddisgwyl gan lywodraethwyr wrth iddynt ymgymryd â'u rôl, gan ganolbwyntio ar godi safonau ac ar wella ysgolion, sef y rôl strategol. Bydd hefyd yn diffinio'r amryfal bwerau a dyletswyddau sydd gan gyrff llywodraethu; sut y mae'r corff llywodraethu'n cefnogi ac yn herio gwaith yr ysgol, rôl y corff hwnnw o ran monitro a gwerthuso cynnydd yn yr ysgol, ac ym mha ffyrdd ac i bwy y mae cyrff llywodraethu yn atebol.

1.5 Bydd yr hyfforddiant a ddarperir yn ystod yr hyfforddiant cynefino yn helpu llywodraethwyr newydd i feithrin amrywiaeth o sgiliau a phriodoleddau sy'n ychwanegu gwerth at gorff llywodraethu, megis hunanhyder, gweithio mewn tîm, datrys problemau, rheoli amser, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth.

1.6 Bydd yr hyfforddiant yn rhoi trosolwg ar lywodraethu ysgolion, a hynny mewn pedwar maes sy'n perthyn i'w gilydd:

- A. Rolau gwahanol ac ategol llywodraethwyr.**
- B. Rolau a chyfrifoldebau allweddol cyrff llywodraethu.**
- C. Sut i fod yn llywodraethwr effeithiol.**
- Ch. Ble i gael gafael ar ragor o wybodaeth, cymorth a hyfforddiant.**

1.7 Bydd yr hyfforddiant yn caniatáu i lywodraethwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau, a'u dealltwriaeth o lywodraethu, a bydd yn adlewyrchu'r deilliannau dysgu a nodir yn adran 4.

A. Rolau gwahanol ac ategol llywodraethwyr

Mae'r Maes Allweddol hwn yn canolbwyntio ar y materion a ganlyn:

- i Pwy sy'n aelodau o gyrff llywodraethu** a sut y mae'r aelodaeth yn amrywio yn unol â chategori'r ysgol lle maent yn gwasanaethu.
- ii Y mathau gwahanol o lywodraethwyr a sut y maent yn cynrychioli'r gwahanol randdeiliaid sy'n gysylltiedig â'r ysgol** – Y Pennaeth, rhiant-lywodraethwyr, llywodraethwyr ALI, athro-lywodraethwyr, staff-lywodraethwyr; llywodraethwyr cymunedol, llywodraethwyr cymunedol ychwanegol, llywodraethwyr sefydledig, llywodraethwyr nawdd, disgybl-lywodraethwyr cyswllt (mewn ysgolion uwchradd). Sut y mae pob categori yn cael ei benodi neu ei ethol, cyfnod yn y swydd ee 4 blynedd, 2 flynedd ar gyfer llywodraethwyr ysgol feithrin a gynhelir.
- iii. Yr ymrwymiad a ddisgwylir gan lywodraethwr** – cyfnod yn y swydd, presenoldeb ac ymddygiad yng nghyfarfodydd/pwyllgorau /digwyddiadau'r corff llywodraethu, ymweld â'r ysgol, bod yn bresennol mewn sesiynau hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr, amser i ddarllen y gwaith papur perthnasol.
- iv. Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus/Egwyddorion Ymddygiad** a sut y maent yn dylanwadu ar y ffordd y mae'r corff llywodraethu'n gweithredu. Mae angen i lywodraethwyr ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a sut y maent yn cael eu dal i gyfrif o ran bod yn esiampl dda i eraill.
- v. Y broses ar gyfer ethol Cadeirydd/Is-gadeirydd yn flynyddol.**
- vi. Rôl y Cadeirydd:**
 - rhoi arweiniad clir wrth drefnu gwaith y corff llywodraethu;
 - sicrhau bod pob llywodraethwr yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol a'u bod yn cymryd rhan lawn yn y cyfarfodydd;
 - sicrhau bod y corff llywodraethu'n gweithio fel tîm;
 - gwneud defnydd da o sgiliau ac arbenigedd yr aelodau;
 - rheoli cyfarfodydd yn effeithiol;
 - cynnal perthynas effeithiol â'r pennaeth;
 - cefnogi a herio'r pennaeth mewn modd strategol;
 - bod yn llefarydd ar ran y corff llywodraethu.
- vii. Rôl y clerc:**
 - dyletswyddau a phwerau – galw cyfarfodydd o'r cyrff llywodraethu; dosbarthu papurau; cymryd a dosbarthu cofnodion cyfarfodydd y cyrff llywodraethu; cynnal cofrestrau aelodaeth a phresenoldeb; cynnig cyngor ac arweiniad ar

weithdrefnau yn ystod cyfarfodydd a rhwng cyfarfodydd;
sichrau bod unrhyw gamau dilynol wedi'u cymryd;

- perthynas y clerics â'r corff llywodraethu – yn atebol i'r corff llywodraethu, cydweithio'n agos â'r Cadeirydd, y pennaeth a llywodraethwyr eraill ar dasgau dynodedig.

viii. Aelodau o'r corff llywodraethu sydd â chyfrifoldebau ychwanegol:

- aelodau o'r corff llywodraethu a enwebwyd ar gyfer rolau penodol ee AAA, amddiffyn plant.

B. Rolau a chyfrifoldebau allweddol cyrff llywodraethu

Mae'r Maes Allweddol hwn yn canolbwyntio ar ddiben llywodraethu, sef helpu i ddarparu'r addysg orau bosibl ar gyfer dysgwyr, a sut y mae llywodraethwyr unigol yn cyfrannu at y gwaith a wneir gan y corff llywodraethu i godi safonau cyflawniad.

B1. Pwerau a dyletswyddau'r corff llywodraethu

- Cynnig golwg strategol** – pennu'r fframwaith a fydd yn llywio'r ffordd y mae'r pennaeth a'r staff yn mynd ati i redeg yr ysgol; pennu'r nodau a'r amcanion; cytuno ar y polisiau, y targedau a'r blaenoriaethau er mwyn cyrraedd yr amcanion hynny; monitro a gwerthuso.
- Bod yn gyfaill beirniadol** – cefnogi a herio'r pennaeth a'r staff, gan geisio gwybodaeth ac esboniadau.
- Sichrau atebolrwydd** – esbonio penderfyniadau'r corff llywodraethu, ac unrhyw gamau a gymerir ganddo, wrth unrhyw un sydd â buddiant dilys.

B2. Cyfrifoldebau Craidd:

Disgrifiad o rôl llywodraethwyr:

- Safonau** – sichrau bod yr ysgol yn hyrwyddo safonau uchel o ran cyflawniad addysgol, ac o ran presenoldeb ac ymddygiad, gan gynnwys mynd ati i adolygu'n drwyadl unrhyw ddata a gyhoeddwyd am berfformiad.
- Targedau** – gosod targedau i'w defnyddio wrth fesur cynnydd o ran cyflawniad a deilliannau disgyblion.
- Y cwricwlwm** – sichrau bod pob dysgwr yn cael manteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys, a bod gofynion statudol yn cael eu bodloni.
- Penderfynu ar nodau, polisiau a blaenoriaethau'r ysgol** – mewn trafodaethau am Gynllun Datblygu/Gwella'r Ysgol,

Hunanwerthuso gan yr Ysgol; diweddarau a chymeradwyo polisïau a dogfennau statudol.

- v. **Cyllid** – penderfynu ar gyllideb yr ysgol, a'i monitro.
- vi. **Staffio**¹ – penderfynu ar nifer y staff, polisi ar gyflogau a gwneud penderfyniadau am gyflogau'r staff, penodi staff, atal staff dros dro, materion disgyblu a diswyddo, cwynion, rheoli perfformiad a materion yn ymwneud â sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ar gyfer y pennaeth a'r staff, ac ymdrin â'r holl faterion hyn gan roi'r sylw dyledus i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.
- vii. **Rhoi gwybodaeth i rieni am yr ysgol** – ee, drwy'r adroddiad blynyddol i rieni a'r cyfarfodydd y mae'n statudol ofynnol eu cynnal â'r rhieni.
- viii. **Paratoi ar gyfer arolygiadau a chymryd y camau dilynol** – gan gynnwys paratoi cynllun gweithredu a monitro cynnydd ar ôl arolygiad gan Estyn.
- ix. **Lles dysgwyr, a'u diogelu** – gan gynnwys hyrwyddo bwyta'n iach.
- x. **Ymwybyddiaeth am gyfrifoldebau'r llywodraethwr wrth ymdrin â materion yn ymwneud â chydraddoldeb, a lle i gael cyngor yn hyn o beth.**
- xi. **Mynd ati, yn ôl y gofyn, i werthuso perfformiad y corff llywodraethu.**

C. Sut i fod yn llywodraethwr effeithiol

Mae'r Maes Allweddol hwn yn canolbwyntio ar y materion a ganlyn:

- i. Y gwahaniaeth rhwng llywodraethu a rheoli – diffinio'r rolau gwahanol:
 - Y Pennaeth:** yn gyfrifol am drefniadaeth fewnol yr ysgol, am reoli'r ysgol ac arfer rheolaeth arni, cynghori am fframwaith strategol y corff llywodraethu, a'i roi ar waith.
 - Y Corff Llywodraethu:** yn rhoi arweiniad strategol – gan gefnogi a herio'r pennaeth. Bod yn ffrind beirniado o ran cynllunio strategol ac o ran monitro a gwerthuso.
- ii. Ymwybyddiaeth glir o'r hyn sy'n cael ei ddirprwyo i'r pennaeth.
- iii. Effeithiolrwydd perthynas y corff llywodraethu â'r pennaeth/y staff/yr awdurdod lleol (ALI)/yr awdurdod esgobaethol a dysgwyr.

¹ yn ymdrin, lle y bo hynny'n briodol, â'r gwahaniaethau rhwng cyfrifoldebau'r corff llywodraethu am staff, a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol fel cyflogwr.

- iv.** Yr angen i gyfathrebu'n dda â rhanddeiliaid (rhieni, yr ALI, y gymuned, etc) ac i ystyried rôl a chyfrifoldebau'r ALI/ yr awdurdod esgobaethol.
- v.** Y priodoleddau personol y mae eu hangen ar lywodraethwr o ran bod yn ddiplomataidd ac ystyried safbwyntiau llywodraethwyr eraill wrth wneud penderfyniadau, egwyddorion ymddygiad, gweithio fel cyfangorff a pheidio â gweithredu'n unigol.
- vi.** Sut y mae cyfarfodydd cyrff llywodraethu'n gweithio a'r hyn a drafodir ynddynt (agendâu – nodi'r holl eitemau sydd i'w trafod, papurau, cofnodion, pleidleisio /cworymau – 50% o aelodaeth y corff llywodraethu), ymddiheuriadau – eu derbyn gan y corff llywodraethu, dirprwyo swyddogaethau), pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd, hysbysiadau ynghylch cyfarfodydd, a'u hyd – amserlen cyfarfodydd/calendr gwaith y flwyddyn).Yr hyn i'w ddisgwyl mewn cyfarfodydd.
- vii.** Sut i baratoi'n effeithiol ar gyfer cyfarfodydd o'r cyrff llywodraethu, a bod yn effeithiol yn y cyfarfodydd hynny.
- viii.** Strwythur cyrff llywodraethu – rôl y pwyllgorau (y pwyllgorau statudol – a'r pwyllgorau eraill (gweler isod), cytuno'n flynyddol ar aelodaeth ac ar gylch gorchwyl y pwyllgorau – gan bennu eu pwerau a'u chyfrifoldebau; cyfathrebu effeithiol rhwng y pwyllgorau a'r corff llywodraethu hy, adrodd yn ôl.

Pwyllgorau statudol:

Pwyllgor disgyblu a diswyddo staff.

Pwyllgor apêl disgyblu a diswyddo staff.

Pwyllgor disgyblu a gwahardd disgyblion.

Pwyllgor derbyniadau (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig ac unrhyw ysgol lle mae'r awdurdod lleol wedi dirprwyo awdurdod dros dderbyniadau i gyrff llywodraethu).

Gweithdrefnau Statudol yn eu lle ar gyfer y materion a ganlyn:

Panel dethol Pennaeth a Dirprwy Benaethiaid.

Arfarnwyr Rheoli Perfformiad ar gyfer y Pennaeth ac Arfarnwr (Arfarnwyr) Apelau.

Adolygu cyflogau ac apelau'n ymwneud ag adolygu cyflogau.

Cwynion ac apelau'n ymwneud â chwynion.

Gallu ac apelau'n ymwneud â gallu.

Gweithdrefnau cwyno.

- ix.** Yr angen i barchu cyfrinachedd – ee, mewn perthynas â thrafodion cyfarfodydd, eitemau cyfrinachol, sut y mae aelodau unigol yn bwrw'u pleidlais.

- x. Datgan unrhyw wrthdaro o ran buddiannau (cofrestr o fuddiannau ariannol); sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud gan y corff llywodraethu.
- xi. Deall cyfrifoldeb corfforaethol y corff llywodraethu – cydgyfrifoldeb am y deilliannau y cytunir arnynt; gweithio'n effeithiol fel tîm; gadael cyfarfodydd pan fo gwrthdaro buddiannau personol; y graddau y mae llywodraethwyr yn atebol a'r cyfyngiadau ar yr atebolrwydd hwnnw.
- xii. Gweithio'n strategol – monitro/gwerthuso perfformiad yr ysgol – Cynllun Datblygu'r Ysgol/Cynllun Gwella'r Ysgol, Hunanwerthuso gan yr Ysgol, data am berfformiad, hunanwerthuso gan y corff llywodraethu, drwy:
 - Adroddiad y Pennaeth.
 - o leiaf unwaith y tymor, cynnwys y corff llywodraethu mewn trafodaethau am Gynllun Datblygu'r Ysgol/Cynllun Gwella'r Ysgol, Hunanwerthuso gan yr Ysgol.
 - Gweld ac ystyried data am berfformiad yr ysgol. Ymwybyddiaeth am sut y mae'r ysgol yn cymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol ac yn lleol; cynnwys y llywodraethwyr wrth ddynodi'r mesurau pwysicaf i'w monitro a'u hadolygu o ran perfformiad yr ysgol.
- xiii. Ymweld â'r ysgol – dod yn gyfarwydd â'r ysgol a dysgu amdani; protocol ar gyfer ymweliadau, amlinellu diben yr ymweliad etc.
- xiv. Hyfforddiant a datblygiad parhaus ar gyfer llywodraethwyr – rhoi anogaeth iddynt fynd i sesiynau hyfforddi; anghenion hyfforddi'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, y corff llywodraethu'n dadansodd sgiliau a phrofiad.
- xv. Nodweddion ysgol effeithiol.

Ch. Ble i gael gafael ar ragor o wybodaeth, cymorth a hyfforddiant

Mae'r Maes Allweddol hwn yn canolbwyntio ar sut i gael rhagor o wybodaeth, cymorth a hyfforddiant:

- i. Y Swyddfa Cefnogi Llywodraethwyr a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol/yr Awdurdod Esgobaethol:
 - cylchlythyrau;
 - dogfennau briffio;
 - rhaglenni a digwyddiadau hyfforddi a ddarperir gan yr ALL ar gyfer llywodraethwyr;

- gwybodaeth ynghylch ymsefydlu.
- ii. Llywodraethwyr Cymru – Corff cenedlaethol annibynnol ar gyfer llywodraethwyr ysgolion www.governorswales.org.uk/cymraeg/
Linell Gymorth: 0845 6020100
- iii. Llywodraeth Cymru –
- Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion.
 - Canllawiau mewn cylchlythyrau:
<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau-llywodraeth-cymru/>
- iv. Y cymorth a gynigir i lywodraethwyr newydd gan yr ysgol, drwy'r pennaeth, llywodraethwyr profiadol a'r clerc:
- hyfforddiant ymsefydlu a ddarperir gan yr ysgol;
 - gwybodaeth a ddarperir gan yr ysgol ee, y prospectws, cofnodion cyfarfodydd blaenorol, cynllun gwella'r ysgol, cylchlythyrau;
 - pennu un o aelodau'r corff llywodraethu i fod yn fentor;
 - cyfarfod gyda'r pennaeth a'r Cadeirydd;
 - gwybodaeth am y corff llywodraethu – rhestr o'r pwyllgorau; calendr o gyfarfodydd y corff llywodraethu a'r pwyllgorau, cylch gwaith y flwyddyn;
 - hyfforddi a datblygu llywodraethwyr – eitem reolaidd ar agenda'r corff llywodraethu, cynnal archwiliad o'r hyfforddiant a gynigir i'r corff llywodraethu.

2. Gwybodaeth gefndirol a dolenni perthnasol

- Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer Ymsefydlu Llywodraethwyr
- Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion:
<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schoolfundingandplanning/schoolgov/schoolgovguide/?skip=1&lang=cy>
- Llawlyfr ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru:
<http://www.governorswales.org.uk/llawlyfr/>
- Ffeil Ffeithiau am y Ffrind Beirniadol:
<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2009/03/16/01-09-y-ffrind-berniadol/>
- Canllaw i Lywodraethwyr ar y Corff Llywodraethu effeithiol:
<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2009/04/27/canllaw-i-lywodraethwyr-ar-y-corff-llywodraethu-effeithiol/>
- Canllaw i Lywodraethwyr ar Hunanwerthuso:
<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2011/03/31/canllaw-i-lywodraethwyr-ar-hunanwerthuso/>
- Canllaw i Lywodraethwyr ar Rôl y Cadeirydd:
<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2011/01/04/canllaw-i-lywodraethwyr-ar-rol-y-cadeirydd/>
- Ffeil Ffeithiau Chwalu Jargon:
<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2006/10/01/chwalu/>
- Cylchlythyrau a chyhoeddiadau Cadwyn – Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil:
<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2012/03/12/cylchlythyrau-canolfan-cymru/>
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth y Swyddfeydd Cefnogi Llywodraethwyr a ddarperir gan yr awdurdodau lleol. Mae'r manylion cyswllt i'w gweld yn adran 5 o'r llawlyfr:
<http://www.governorswales.org.uk/llawlyfr/>

Cyfeiriadau defnyddiol ar y we:

Llywodraeth Cymru: www.cymru.gov.uk

Llywodraethwyr Cymru: <http://www.governorswales.org.uk/cymraeg/>

Estyn: www.estyn.gov.uk

Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion:

www.sefcymru.org/cym/sef-p2-home.htm